O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif. 1912 (Cy. 234)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Slebets, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *19 Gorffennaf 2012*

Yn dod i rym *1 Awst 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Awst 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Slebets, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00.01 o'r gloch ar 1 Awst 2012 ac yn dod i ben pan dynnir yr arwyddion traffig dros dro oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd yn Slebets, yn Sir Benfro, sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U6097 yn Lower Toch, i gyfeiriad y gorllewin am tua 3.3 cilometr, i ganolbwynt ei chyffordd â'r C3016 yn Rhos.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.